

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD - DYDD IAU, 25 MEHEFIN 2026

COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A GYNHALIWDYD O BELL – DRWY GYFRWNG TIMAU
MICROSOFT DDYDD IAU, 25 MEHEFIN 2026 AM 10:00

Presennol yn Rhithwir

Y Cyngorydd T Thomas – y Cadeirydd

Presennol yn Rhithwir

S Aspey
I M Spiller

RM Granville
T Thomas

D T Harrison
G Walter

M L Hughes
E D Winstanley

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

H Bennett

RM James

Datganiadau o Fuddiannau

Dim

Swyddogion:

Stephen Griffiths
Rachel Keepins

Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd

37. Cymeradwyo'r Cofnodion

Y Penderfyniad Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd dyddiedig 20/11/2025 fel
----------------------	---

	cofnod gwir a chywir.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	25 Mehefin 2026

38. Diweddariad y Rhaglen Datblygu Aelodau

Y Penderfyniad Wnaed	Diben yr adroddiad hwn oedd: - Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gyflawni Rhaglen Hyfforddi a Datblygu Aelodau'r Cyngor a gweithgareddau cysylltiedig. - Gofyn i'r Pwyllgor nodi unrhyw bynciau pellach i'w cynnwys yn y Rhaglen Datblygu Aelodau. Roedd Atodiad A i'r adroddiad yn egluro manylion y sesiynau hyfforddi a datblygu a gynhaliwyd fel rhan o'r Rhaglen Datblygu Aelodau ers adrodd am hyn ddiwethaf iwrth Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd ar 20 Tachwedd 2025. Parhaodd ceisiadau hyfforddi i ddod yn rheolaidd oddi wrth Aelodau a Swyddogion, ac mae croeso mawr ac anogaeth i'r rhain bob amser gan eu bod yn ei gwneud yn bosibl targedu'r rhaglen yn benodol i gwrdd ag anghenion. Roedd Atodiad B yn nodi amserlen ar gyfer hyfforddiant parhaus dros yr ychydig fisoedd nesaf ac mae'n cynnwys rhywfaint o hyfforddiant allanol o ganlyniad i argymhellion gan yr Adolygiad Craffu a gynhaliwyd yn gynharach eleni. Mewn ymateb i'r adroddiad, bu'r Aelodau'n trafod nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol: - Yn dilyn cynnig yn y Cyngor ar 24 Mehefin, oedd yn ceisio annog pob aelod etholedig i hyrwyddo ymddygiad parchus ar-lein ac mewn cyfarfodydd cyhoeddus hefyd, teimlwyd y gellid cefnogi Aelodau yn hyn o beth gyda rhywfaint o hyfforddiant ar sgiliau cyfryngau cymdeithasol a defnyddio data a gwybodaeth. - Pwysigrwydd rhoi cymaint o rybudd â phosibl o friffiau sydd ar ddod i Aelodau. - Bu'n rhaid gohirio'r briffio ar Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFGs) oherwydd bod y cyfrifoldeb am dai wedi symud rhwng cyfarwyddiaethau. Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant oedd bellach yn gyfrifol am y gwasanaeth. Nododd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd y byddai'n ymdrechu i ail-drefnu'r briffio yn fuan. - Roedd briffio wedi digwydd ar y Strategaeth Camfanteisio ranbarthol, a weithredir gan y Cyngor,
----------------------	--

	mewn partneriaeth â Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg, a gellid rhannu'r recordiad gyda'r Aelodau. • Y gwaith sy'n cael ei wneud i weithredu'r darpariaethau yn Neddf Terfysgaeth (Diogelu Eiddo) 2025, a elwir hefyd yn Gyfraith Martyn, sy'n cryfhau diogelwch eiddo a digwyddiadau cyhoeddus. • Nododd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ei bod yn hanfodol bod pob Aelod yn mynychu un o'r briffiau gan Heddlu De Cymru a drefnwyd ar gyfer mis Gorffennaf mewn perthynas â diogelwch personol. Byddai'r sesiynau'n neilltuoel o ddefnyddiol i ganfod pa anghenion eraill sydd mewn perthynas â diogelwch personol Aelodau. Os na fyddai rhai Aelodau'n gallu mynychu un o'r sesiynau, byddai rhai sesiynau cryno. Ymhellach, nododd ei bod yn edrych ar raglen hyfforddi ar wahân ar ddiogelwch Aelodau, yn cynnwys Heddlu De Cymru, rhywfaint o hyfforddiant allanol a sesiynau ar-lein. • O ran briffiau yn y dyfodol, teimlid bod angen trefnu un ar Harbwr Porthcawl, efallai'n cynnwys Meistr yr Harbwr. Er bod Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi derbyn taflenni balansau a pheth gwybodaeth dechnocrataidd am yr Harbwr, nid oedd yr Aelodau'n deall sut roedd yn gweithredu • Roedd rhai Aelodau'n cael trafferth i gael mynediad at hyfforddiant ar-lein, ac efallai y byddai'n werth rhoi adnoddau ychwanegol i mewn er mwyn sicrhau eu bod yn gallu gwneud hynny, a gallai hyn gynnwys cymorth un-i-un. • Roedd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a'i thîm yn haeddu cydnabyddiaeth am y gwelliannau sylweddol sydd wedi digwydd o ran datblygu aelodau dros y pedair blynedd ddiwethaf ond bod rhai Aelodau o hyd nad ydynt wedi cwblhau'r hyn oedd i fod yn rhaglen orfodol. Roedd yn parhau i fod yn broblem nad oes unrhyw ganlyniadau am beidio â chwblhau'r rhaglen orfodol. Awgrymodd Aelod, o ran y tymor newydd, sy'n dechrau ym mis Mai 2027, y gellid rhoi rhywfaint o ystyriaeth i newid y Cyfansoddiad i gynnwys gofyniad i bob Aelod gwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol o fewn amserlen benodol, gyda'r posibilrwydd o sancsiynau os na wneir hyn. Nododd y Cadeirydd ei gefnogaeth i sancsiynau, er ei fod yn dueddol o eiriol dros fesurau cefnogi. Roedd Aelod arall o'r farn ei fod yn fater o atebolrwydd cyhoeddus i fod wedi cwblhau rhaglenni hyfforddi. • Nododd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ei fod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor i argymhell i'r Cyngor pa hyfforddiant oedd yn hanfodol ac yn orfodol ac y byddai hi'n edrych i weld a ellid rhoi sancsiynau yn eu lle a byddai'n croesawu awgrymiadau gan yr Aelodau. Nododd hefyd ei fod yn fater y gellid edrych arno gyda'i chyd-Benaethiaid Gwasanaethau Democrataidd, yn eu grŵp ar y cyd. Cynigiwyd gofyn i'r Swyddog Monitro am ei barn hi ynghylch sancsiynau, a gellid trafod y mater ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Tachwedd. • O ran sicrhau bod aelodau newydd yn ymgymryd â hyfforddiant gorfodol, awgrymodd Pennaeth y
--	---

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD - DYDD IAU, 25 MEHEFIN 2026

	Gwasanaethau Democrataidd mai un syniad oedd cael sesiwn yn ystod y cyfnod sefydlu lle gallai aelodau ddod â'u gliniaduron i'r Swyddfeydd Dinesig a gwneud rhai o'r modiwlau hyfforddi gorfodol. Roedd hefyd yn bosibl cyflenwi llyfrynnau i aelodau ar gyfer yr hyfforddiant, fel dewis arall yn lle'r fformat digidol. Awgrymodd y gellid trafod y syniadau hyn yng nghyfarfod nesaf Gweithgor Datblygu Aelodau Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Pwyllgor yn gwneud y canlynol: - Nodi'r adroddiad a'r Atodiadau. Hyfforddiant arfaethedig ar sgiliau'r cyfryngau cymdeithasol a'r defnydd o ddata a gwybodaeth, a briff ar Harbwr Porthcawl yn ogystal â dilyniant ar y briffiau DFG a Thai oedd wedi cael eu gohirio'n ddiweddar. - Gofynnwyd i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd edrych i mewn i'r posibilrwydd o roi sancsiynau yn eu lle ar gyfer Aelodau Etholedig o ran ymgymryd â hyfforddiant gorfodol. - Nodwyd gwaith Gweithgor Datblygu Aelodau Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	25 Mehefin 2026

39. Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd

Y Penderfyniad Wnaed	Diben yr adroddiad oedd cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer y cyfnod o Fai 2025 hyd fis Mai 2026. Roedd yr adroddiad yn amlinellu gwaith y Pwyllgor yn ystod y cyfnod hwnnw. Mewn ymateb i'r adroddiad, bu'r Aelodau'n trafod ychydig o faterion, fel a ganlyn: - A oedd yn bosibl cofnodi rheswm pam yr oedd Aelod wedi gorfod anfon ei ymddiheuriadau ar gyfer cyfarfod. Nododd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd y byddai'n edrych i mewn i'r hyn oedd yn bosibl gydag aelodau ei thîm, yn enwedig o ran beth allai fod yn bosibl yn y feddalwedd Mod.Gov a ddefnyddir gan y Cyngor. - Tri achos yn unig a gofnodwyd yn yr adroddiad pan fu rhaid i Aelodau anfon eu hymddiheuriadau
----------------------	---

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD - DYDD IAU, 25 MEHEFIN 2026

	ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor ond gallai fod yn ddefnyddiol pe bai Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn cysylltu â'r Aelodau dan sylw i ganfod y rheswm ac i hyn gael ei gofnodi yn yr adroddiad i'r Cyngor.. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Pwyllgor yn nodi'r Adroddiad Blynyddol i'w gyflwyno i'r Cyngor er gwybodaeth, yn amodol ar ychwanegu, yn dilyn eglurhad, y rheswm dros ymddiheuriadau a roddwyd dros y flwyddyn ar gyfer amrywiol aelodau ym mharagraff 3.3.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	25 Mehefin 2026

40. Blaenraglen Waith Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd

Y Penderfyniad Wnaed	Diben yr adroddiad hwn oedd cyflwyno'r Flaenraglen Waith (RhW) arfaethedig ar gyfer Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd i'r Aelodau ei hystyried a'i datblygu ymhellach. Mewn ymateb i'r adroddiad, bu'r Aelodau'n trafod nifer o faterion: • Nododd y Cadeirydd ei fod yn fodlon ar y Flaenraglen Waith arfaethedig. • Anogodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yr holl Aelodau i rannu'r Adroddiad Blynyddol ar Gydabyddiaeth Ariannol gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (RWF) am 2026-27 o fewn eu grwpiau a chael eu mewnbwn pan fydd wedi ei gyhoeddi. Dywedodd y byddai'n ei anfon at yr holl aelodau cyn gynted ag y byddai'n cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad a byddai'n ceisio casglu'r holl adborth ac yn anfon argymhellion i'r Comisiwn. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bu'r Aelodau'n ystyried y Flaenraglen Waith ddrafft arfaethedig ar gyfer Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd oedd ynghlwm yn Atodiad A a gofynnwyd am y canlynol: • Adborth mewn perthynas â'r drafodaeth ynghylch hyfforddiant a sancsiynau, ac a oedd yna
----------------------	---

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD - DYDD IAU, 25 MEHEFIN 2026

	ddewisiadau i'r Pwyllgor wneud argymhellion i'r Cyngor. • Y gellid rhannu'r cofnodion neu'r nodiadau oedd yn gysylltiedig â chyfarfodydd y Gweithgor Datblygu Aelodau gydag Aelodau'r Pwyllgor.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	25 Mehefin 2026

41. Materion Brys

Y Penderfyniad Wnaed	Dim
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	25 Mehefin 2026

Er mwyn gwyllo rhagor o'r ddadl a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y [ddolen](#) hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.46.